OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1150 (Cy. 200) (C. 36)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Cychwyn Rhif 1) 2019

*Gwnaed - - - - 18 Gorffennaf 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 30(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Cychwyn Rhif 1) 2019.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar y dyddiad gwneud

### Y diwrnod penodedig

**2.** 1 Medi 2019 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym—

(a) adrannau 1 i 19;

(b) adrannau 21 i 29;

(c) Atodlen 1; a

(d) Atodlen 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar y dyddiad gwneud

(**1**) 2019 dccc 2.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf ar 1 Medi 2019. Daw adrannau 30 ac 31 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Cychwyn Rhif 1) 2019.